
# FFURFLEN LEFI 2026

## SUT I GYFRIFO'CH FFIGYRAU




Mae Lefi CITB yn seiliedig ar gyfanswm eich taliadau am y flwyddyn i unigolion ar y gyflogres ac is-gontractwyr Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS) y gwnewch ddidyniad CIS ganddynt.

I bennu cyfanswm eich taliadau ar gyfer Ffurflen Lefi 2026, bydd angen y canlynol arnoch ar gyfer y flwyddyn dreth 2025 i 2026 (6 Ebrill 2025 i 5 Ebrill 2026):

- cofnodion cyflogres trethadwy gros
- ffurflenni misol CIS300 neu CIS ar-lein CThEF
- llyfr prynu

Sganiwch y cod QR am fideo canllawiau






# Taliadau i weithwyr, gan gynnwys cyfarwyddwyr cyflogedig (**Adran 2**)

**BLWCH A** - cyfanswm y taliadau trethadwy crynswth a wnaed i bob gweithiwr ar y gyflogres, gan gynnwys cyfarwyddwyr cyflogedig, cyn didyniadau o 6 Ebrill 2025 i 5 Ebrill 2026.

Y ffigur hwn yw cyfanswm y swm ar gyfer y flwyddyn ar eich cofnodion cyflogres trethadwy crynswth y byddwch wedi'u cyflwyno i CThEF.

**Dylai hyn gynnwys:**

- Pob taliad TWE i staff gan gynnwys cyfarwyddwyr cyflogedig, staff gweinyddol/clerigol, gweithwyr IR35 oddi ar y gyflogres (a ystyrir yn gyflogedig at ddibenion treth) yn ogystal ag unrhyw rhai sy'n gadael.

**Ni ddylai hyn gynnwys:**

- Cyfraniadau pensiwn cyflogwyr
- Tyniadau gan fasnachwyr unigol a phartneriaid
- Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (CYG) y Cyflogwr
- Difidendau
- Taliadau i weithwyr hunangyflogedig, is-gontractwyr, staff asiantaeth, neu gyflenwyr llafur.

Os na wnaethoch unrhyw daliadau i weithwyr, nodwch '**0**' ym **MLWCH A** a nodwch reswm dros beidio â chael cyflog yn y lle a ddarperir.

Os ydych chi'n gwmni cyfyngedig, mae cyfarwyddwr sy'n ymwneud â gweithgareddau dyddiol yn 'gyflogai' i'ch cwmni a rhaid ei gynnwys ym **MLWCH A**. Os nad yw'r cyfarwyddwr(wyr) wedi cael eu talu drwy TWE ac rydych chi wedi nodi 0 ym MLWCH A, dywedwch wrthym pam nad ydynt wedi cymryd cyflog yn y lle a ddarperir e.e. dim ond difidendau y mae cyfarwyddwyr yn eu cymryd neu ni dderbyniodd cyfarwyddwyr gyflog.

**BLWCH B** - Nifer cyfartalog y gweithwyr ar y gyflogres.

Dylai hyn gynnwys:

- Pob aelod o staff sydd wedi'i gynnwys ym **MLWCH A**. Dylid cyfrif gweithwyr rhan-amser fel cyfrannau priodol o weithwyr llawn amser.

Sganiwch y cod QR am fideo canllawiau

# Taliadau Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS) (**Adran 3a**)

## **BLWCH C** - Cyfanswm y dreth a dynnwyd o is-gontractwyr a dalwyd trwy CIS o 6 Ebrill 2025 i 5 Ebrill 2026.

Gellir cyfrifo'r ffigur hwn trwy adio '**cyfanswm y dreth a dynnwyd**' o bob un o'r ffurflenni misol CIS300/contractwr ar-lein.

## **BLWCH D** - Cyfanswm yr **holl** daliadau (cyn didyniadau) i **bob** is-gontractwr a dalwyd drwy CIS o 6 Ebrill 2025 i 5 Ebrill 2026.

Gellir cyfrifo'r ffigur hwn drwy adio '**cyfanswm y taliadau a wnaed (heb gynnwys TAW)**' o bob un o'r ffurflenni misol CIS300/contractwr ar-lein.

**Ffurflen fisol - Mewn priflythrennau**

**Ffurflen Fisol ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben**
**5ed Mai 2025**
Cyflwynwyd y ffurflen fisol hon ar 12/05/2025
Eich Marc IR yw:
Nifer yr is-gontractwyr: 4

| Enw | Rhif dilysu | Cyfanswm y taliadau a wnaed (heb gynnwys TAW) | Cost deunyddiau (y talwyd amdanynt gan yr is-gontractwyr) | Cyfanswm y treth a ddidynnwyd |
|---|---|---|---|---|
| 789 Construction Ltd | VL15455532 | 1,000.00 | 0.00 | 200.00 |
| 456 Electricals Ltd | VL15455539 | 5,000.00 | 0.00 | 0.00 |
| Cat Tooth Roofing Ltd | VL15455533 | 3,500.00 | 2,000.00 | 0.00 |
| Steve Taylor | VL15455554 | 1,600.00 | 600.00 | 300.00 |
| | **Cyfanswm** | **11,100.00** | **2,600.00** | **500.00** |

**BLWCH D** (Cyfanswm y taliadau a wnaed) — **BLWCH C** (Cyfanswm y treth a ddidynnwyd)

Os nad ydych chi wedi gwneud unrhyw daliadau drwy Gynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS) Rhowch '**0**' ym **MLYCHAU C** a **D** a symudwch ymlaen yn syth i'r adran nesaf.

**Sganiwch y cod QR am fideo canllawiau**



# Ydych chi wedi didynnu treth ar gyfradd o 30% oddi ar rai is-gontractwyr, neu bob un ohonynt, sy'n cael eu talu drwy CIS?

**'Nac ydw'** - dylech symud ymlaen yn syth i'r adran nesaf.
**'Ydw'** - dylech lenwi **BLWCH F**, gan roi eich taliadau i is-gontractwyr trethadwy, llai deunyddiau.

### Pam mae BLWCH F yn bwysig?

Mae'r cyfrifiad Lefi a gyflwynir i FLWCH C yn gweithredu ar y sail bod pob is-gontractwr wedi'i drethu am 20%. Os ydych chi wedi trethu rhai neu bob un o'ch is-gontractwyr am 30% ac nid ydych chi'n cwblhau BLWCH F, yna bydd eich Asesiad Lefi yn uwch nag y dylai fod.

## Cyfrifo **BLWCH F** – eich taliadau i is-gontractwyr trethadwy trwy CIS o 6 Ebrill 2025 i 5 Ebrill 2026, llai deunyddiau.

I gyfrifo'r ffigur hwn, yn gyntaf dewch o hyd i'r llinellau ar eich ffurflen fisol CIS300/contractwr ar-lein lle cafodd treth ei didynnu. Dyma le nad yw '**cyfanswm y dreth a ddidynnwyd**' yn sero, fel y dangosir yn yr enghraifft isod.

**Ffurflen Fisol - Mewn priflythrennau**

**Ffurflen Fisol ar gyfer y cyfnod a ddaeth i ben**
**5ed Mai 2025**
Cyflwynwyd y ffurflen fisol hon ar 12/05/2025
Eich Marc IR yw:
Nifer yr is-gontractwyr: 4

**Sganiwch y cod QR am fideo canllawiau**

| Enw | Rhif dilysu | Cyfanswm y taliadau a wnaed (heb gynnwys TAW) | Cost deunyddiau (y talwyd amdanynt gan yr is-gontractwyr) | Cyfanswm y dreth a ddidynnwyd | |
|---|---|---|---|---|---|
| 789 Construction Ltd | VL15455532 | 1,000.00 | 0.00 | 200.00 | ✓ Treth wedi'i didynnu heb gost ddeunydd - Dylech ei chynnwys ym MLWCH F |
| 456 Electricals Ltd | VL15455539 | 5,000.00 | 0.00 | 0.00 | X Treth heb ei didynnu - Peidiwch â'i chynnwys ym MLWCH F |
| Cat Tooth Roofing Ltd | VL15455533 | 3,500.00 | 2,000.00 | 0.00 | X Treth heb ei didynnu - Peidiwch â'i chynnwys ym MLWCH F |
| Steve Taylor | VL15455554 | 1,600.00 | 600.00 | 300.00 | ✓ Treth wedi'i didynnu gyda chost deunydd - Dylech ei chynnwys ym MLWCH F |
| | **Cyfanswm** | **11,100.00** | **2,600.00** | **500.00** | |

Nawr ychwanegwch y **'cyfanswm taliadau a wnaed (heb gynnwys TAW)'** o'r llinellau hyn a thynnwch **'cost deunyddiau (a dalwyd amdanynt gan bob is-gontractwr)'** o'r llinellau hyn.

| **Cyfanswm y taliadau a wnaed (heb gynnwys TAW)** | | **Cost deunyddiau (y talwyd amdanynt gan yr is-gontractwyr)** | | **BLWCH F** |
|---|---|---|---|---|
| £1,000 + £1,600 = £2,600 | – | £600 | = | £2,000 |

# Newydd i Ffurflen Lefi 2026 (**Adran 3b**)

### Pam mae CITB yn casglu'r wybodaeth hon?

Mae CITB yn casglu'r data i ddeall modelau cyflenwad llafur yn well o fewn y diwydiant. Bydd y ffigurau ym MLYCHAU G a H yn cael eu casglu at ddibenion ymchwil yn unig ac nid ydynt yn effeithio ar eich ymrwymiad Lefi.

## **BLWCH G** - Cyfanswm y taliadau a wnaed drwy CIS i asiantaethau llafur, cwmnïau ymbarél, darparwyr cyflogres CIS neu sefydliadau tebyg^ gyda statws taliad gros o 6 Ebrill 2025 i 5 Ebrill 2026.

Gellir cyfrifo'r ffigur hwn drwy adio'r taliadau perthnasol o bob un o'r ffurflenni misol CIS300/contractwr ar-lein.

### Dylai hyn gynnwys:

- Taliadau a wneir drwy CIS i asiantaethau llafur, cwmnïau ymbarél, darparwyr cyflogres CIS neu sefydliadau tebyg â statws taliad gros
- Contractau gweithgaredd adeiladu cymysg yn unol â chanllawiau CIS340
- Teithio a chynhaliaeth yn unol â chanllawiau CIS340.

### Ni iddylai hyn gynnwys:

- Gweithwyr TWE
- Is-gontractwyr CIS â thâl net sydd wedi'u cynnwys ym Mlwch C
- Is-gontractwyr CIS â thâl gros nad ydynt yn asiantaethau llafur, darparwyr cyflogres CIS na sefydliadau tebyg
- Taliadau i weithwyr oddi ar y gyflogres sydd wedi'u cynnwys ym Mlwch A
- Taliadau a wneir i gangiau masnach fel gwaith brics, gwaith coed, plastro ac ati (oni bai eu bod yn cael eu talu trwy gyflenwr llafur)
- TAW.

| Enw | Rhif dilysu | Cyfanswm y taliadau a wnaed (heb gynnwys TAW) | Cost deunyddiau (y talwyd amdanynt gan yr is-gontractwyr) | Cyfanswm y treth a ddidynnwyd | |
|---|---|---|---|---|---|
| DEF Payroll Solutions | VL11523458 | £3000.00 | £0.00 | £0.00 | ← ✓ Darparwr cyflogres CIS â thâl gros – Dylech ei chynnwys ym Mlwch G |
| James Brown * | VL11523456 | £2000.00 | £0.00 | £400.00 | ← ✗ Nid yw'n ddarparwr cyflogres CIS ac nid yw'n cael ei dalu'n gros – Peidiwch â'i chynnwys ym Mlwch G |
| XYZ Builders ** | VL11523457 | £4000.00 | £0.00 | £0.00 | ← ✗ Nid yw'n ddarparwr cyflogres CIS ac nid yw'n cael ei dalu'n gros – Peidiwch â'i chynnwys ym Mlwch G |
| CIS Payroll Services * | VL11565789 | £4500.00 | £0.00 | £900.00 | ← ✗ Yn ddarparwr cyflogres CIS ond yn cael ei dalu'n net – Peidiwch â chynnwys ym Mlwch G |

* Eisoes wedi'i ddatgan mewn man arall ar y Ffurflen Lefi
** Adeiladwr cyffredinol yn darparu ei beiriannau a'i ddeunyddiau ei hun



## **BLWCH H** - Cyfanswm y taliadau a wnaed y tu allan i'r CIS i asiantaethau llafur, cwmnïau ymbarél, neu sefydliadau tebyg^ o 6 Ebrill 2025 i 5 Ebrill 2026.

Gellir cyfrifo'r ffigur hwn trwy adio'r taliadau perthnasol o'r llyfr prynu/cyfrifau taladwy at ei gilydd.

### Dylai hyn gynnwys:

- Pob taliad cyflenwr llafur a wneir y tu allan i'r CIS i asiantaethau llafur, cwmnïau ymbarél neu sefydliadau tebyg, **waeth beth fo'u gweithgaredd**
- Ffioedd asiantaeth/comisiwn ar gyfer darparu llafur.

### Ni ddylai hyn gynnwys:

- Gweithwyr TWE
- Taliadau i weithwyr oddi ar y gyflogres sydd wedi'u cynnwys ym Mlwch A
- Ffioedd canfod asiantaethau/ ffioedd trosglwyddo
- TAW.

### Beth ddylid ei gynnwys ym MLWCH H?

Mae rhai enghreifftiau o'r hyn i'w gynnwys ym MLWCH H yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, daliadau i asiantaeth lafur ar gyfer:

- Ymgynghorwyr proffesiynol fel penseiri, syrfewyr, peirianwyr, a rheolwyr prosiectau
- Gwasanaethau glanhau ac arlwyo
- Gwasanaeth swyddfa dros dro h.y. cynorthwyydd cyfrifon, derbynnydd, clerc mewnbynnu data ac ati

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr.
**Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr hyn i'w gynnwys, cysylltwch â ni.**

### ^Beth yw ystyr sefydliadau tebyg?

Mae'r mathau hyn o fusnesau yn cael eu hadnabod gan dermau lluosog (e.e. gwasanaethau contractio a thalu, asiantaethau staffio, gwasanaeth cyflogres CIS, cyfryngwr taliadau CIS, darparwyr llafur/adnoddau, darparwyr datrysiadau llafur/cyflogres). **Mae llawer o'r termau hyn yn gyfnewidiol, ond y gwasanaeth maen nhw'n ei ddarparu sy'n bwysig.**

Os nad ydych wedi gwneud unrhyw daliadau i asiantaethau llafur, cwmnïau ymbarél, darparwyr cyflogres CIS neu sefydliadau tebyg, nodwch '**0**' ym **MLYCHAU G** a **H** ac ewch ymlaen yn syth i'r adran nesaf. **Peidiwch â gadael y blychau hyn yn wag.**

**Sganiwch y cod QR am fideo canllawiau**




# **Cyn dychwelyd eich Ffurflen Lefi** atom, gwnewch yn siŵr eich bod wedi:

- Ysgrifennu symiau mewn punnoedd cyfan yn unig, gan anwybyddu ceiniogau
- Rhoi ‘0’ lle bo’r gwerth yn sero
- Cynnwys cyflogau eich cyfarwyddwyr ym MLWCH A, os yw’ch busnes yn gwmni cyfyngedig
- Rhoi rheswm os ydych wedi datgan dim cyflogres ym MLWCH A
- Cwblhau BLWCH F yn unig os ydych wedi didynnu treth ar 30% o rai neu bob is-gontractwr a dalwyd drwy CIS
- Cwblhau BLWCH G a H os ydych wedi defnyddio cyflenwyr llafur, neu wedi rhoi ‘0’ lle mae’r gwerth yn sero.